Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dŷ Bronllys

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Thŷ Bronllys

Ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli ychydig y tu allan i Aberhonddu yw Tŷ Bronllys. Mae'r ysgol yn darparu addysg a gofal preswyl i ddisgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd â diagnosis o anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA). Agorwyd yr ysgol yn 2007 ac mae'n un o bedair ysgol a berchnogir gan grŵp Orbis Education and Care.

Mae naw disgybl yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Mae pob un o'r disgyblion yn wrywod ac wedi cael eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn byw yn y cartref cofrestredig i blant ar y safle. Saesneg yw mamiaith y rhan fwyaf o'r disgyblion.

Mae'r pennaeth addysg wedi bod yn ei swydd er mis Mai 2017. Mae cyfarwyddwr addysg yn goruchwylio'r ddarpariaeth addysg ar draws ysgolion y cwmni. Mae dau o athrawon dosbarth a phump o gynorthwywyr cymorth dysgu amser llawn. Cefnogir y tîm addysg gan dîm clinigol sy'n cynnwys therapydd lleferydd ac iaith, arbenigwr ymddygiad, therapydd galwedigaethol a thechnegwyr clinigol.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o'r ysgol ym mis Hydref 2011.

## Crynodeb

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo lles a dysgu disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.  Mae'r cydweithio cydlynus rhwng timau addysg, preswyl ac amlddisgyblaethol yr ysgol yn cefnogi dull hynod gyson gan staff o helpu disgyblion i reoli eu hanghenion cymhleth.  Mae athrawon a staff cymorth yn deall anghenion disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd gweithio cryf a chynhyrchiol gyda nhw.  O ganlyniad, mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.  Maent yn gwneud cynnydd cryf o ran gwella eu hymddygiad ac yn dysgu medrau pwysig sy'n eu helpu i fyw bywyd mwy annibynnol.  Mae arweinwyr yn yr ysgol yn darparu arweinyddiaeth gref a gweledigaeth ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio ar ddarparu amgylchedd diogel a saff ar gyfer disgyblion.  Mae ganddynt drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith yr ysgol.  O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes cryf mewn gwneud gwelliannau i'w darpariaeth er budd disgyblion.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Cydymffurfio â’r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae’r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safle ac adeiladau preswyl mewn ysgolion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Datblygu ystod o brofiadau dysgu i fodloni anghenion disgyblion sy’n llai goddefgar o amgylchedd yr ystafell ddosbarth

A2 Sicrhau bod diben asesu yn glir ac yn nodi’n fanwl gywir yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwneud cynnydd

A3 Darparu cyfleoedd i staff addysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol sydd â ffocws clir ar addysgu a dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori’r perchennog i ddiwygio ei gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae’r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i’r argymhellion. Dylai ddosbarthu’r cynllun hwn hefyd, neu grynodeb ohono, i’r holl rieni/gofalwyr yn yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd Tŷ Bronllys i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â’r modd y mae cydweithio rhwng y timau addysg, preswyl ac amlddisgyblaethol yn cefnogi’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion unigol, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol yn ddifrifol awtistig ac mae ymddygiadau'r rhan fwyaf ohonynt yn hynod heriol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi cael cyfnodau amharedig o ran addysg cyn dechrau yn yr ysgol. O ganlyniad, mae amrywiad mawr yn eu mannau cychwyn a'u gallu dysgu. O ganlyniad i'w hanghenion unigol, mae angen barnu cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion ar sail disgyblion unigol. Nid oes modd cymharu perfformiad yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yn y cyd-destun hwn, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni eu targedau dysgu unigol yn yr ysgol ac yn y gymuned. Maent yn ennill achrediad addas am ystod eang o gyflawniadau mewn meysydd fel ymarfer corff, technoleg bwyd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ac mewn llythrennedd a rhifedd yn ogystal.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf o ran datblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol perthnasol sy'n eu helpu i fod yn fwy annibynnol yn eu bywydau bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n hyderus gan ddefnyddio arwyddion a symudiadau corfforol er mwyn mynegi eu dymuniadau. Maent yn ymateb yn adeiladol i athrawon a staff cymorth gan ddefnyddio ciwiau heb eiriau fel cyffwrdd, ystumiau a chymryd tro, ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn gwrtais â phobl sy'n ymweld â'r ysgol.

Mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau staff yn dda. Maent yn ymateb yn briodol i gwestiynau ac yn dangos medrau gwrando da. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd eithriadol o dda yn eu medrau cyfathrebu o ganlyniad i'r cymorth arbenigol cynlluniedig a gânt gan staff.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr trwy gael cyfle rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol fel siopa, nofio a beicio. Mae disgyblion hŷn, y maent yn briodol iddynt, yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol trwy elwa ar brofiad gwaith mewn canolfan medrau gwaith a berchnogir gan y sefydliad. Trwy'r profiad hwn, maent yn ennill dealltwriaeth gadarn o fyd gwaith ac yn datblygu'r gallu i uniaethu â phobl eraill mewn cyd-destun gwahanol yn briodol. Mae rhai disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus yn y gymuned ehangach, er enghraifft mewn caffi a siop anifeiliaid anwes leol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau echddygol manwl a bras yn briodol trwy sesiynau garddio a choginio, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda trwy weithgareddau amserlenedig rheolaidd sy'n gweddu'n dda i ddiddordebau a galluoedd disgyblion, fel tennis, ioga, a saethyddiaeth.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau gwerthfawr sy'n eu galluogi i fyw yn fwy annibynnol mewn meysydd fel paratoi bwyd, siopa a gofal personol. Mewn

gwersi, mae rhai disgyblion yn gwneud dewisiadau annibynnol i ymateb i gwestiynau staff, er enghraifft pan ofynnir iddynt benderfynu ar y ffeithiau ar gyfer poster am fywyd y cefnfor a'r lluniau i gyd-fynd ag ef.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerth chweil o ran datblygu eu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd ar lefelau sy'n briodol i'w gallu. Mae tua hanner y disgyblion yn ysgrifennu eu henwau yn annibynnol, tra bod angen i ddisgyblion eraill gael cymorth arweiniad llaw dros law. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dilyn testun sy'n cael ei ddarllen gan yr athro yn llwyddiannus ac yn dangos eu dealltwriaeth trwy ateb cwestiynau dilynol neu leoli ciwiau llun. Mae disgyblion yn datblygu medrau rhifedd perthnasol gan ddefnyddio gweithrediadau sylfaenol a galw rhifau i gof.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddefnyddio medrau TGCh. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen a chyfrifiaduron bwrdd gwaith yn hyderus wrth ddethol gwybodaeth neu ddewis caneuon a fideos. Mewn gwersi, mae tua hanner y disgyblion yn defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn bwrpasol i ateb cwestiynau ac ysgrifennu eu henwau.

Oherwydd cymhlethdod eu hanghenion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn symud ymlaen i ddarpariaeth breswyl arbenigol pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'r cynnydd buddiol a wna disgyblion yn yr ysgol mewn ystod eang o fedrau yn eu galluogi i ddechrau'r cam nesaf hwn o'u bywydau gyda mwy o annibyniaeth a hyder.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Dros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu'r medrau a'r strategaethau sydd eu hangen arnynt i ddeall eu teimladau a rheoli eu hymddygiad yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn ymateb yn dda iawn i ddulliau effeithiol yr ysgol o reoli ymddygiad heriol ac ymyriadau staff medrus ac ymroddgar. O ganlyniad, ni fu unrhyw waharddiadau yn yr ysgol am y tair blynedd ddiwethaf.

Mae perthnasoedd gweithio disgyblion gyda staff yn gryfder sylweddol yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol. Mae disgyblion yn gwybod y bydd staff yn cefnogi a deall eu hanghenion pan fyddant yn ddigalon neu'n poeni. Mae lefel uchel yr ymddiriedaeth sydd gan ddisgyblion mewn staff yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu eu hyder a'u hunan-barch. Yn ei dro, mae hyn yn galluogi disgyblion i roi cynnig ar brofiadau newydd a derbyn newid yn fwy parod.

Mae llawer o ddisgyblion yn sgwrsio'n llawen â phobl sy'n ymweld â'r ysgol trwy eu cyfarch ac ymateb iddynt yn briodol. Maent yn ymateb yn hyderus i'w cwestiynau ac yn dangos dealltwriaeth dda o gonfensiynau cymdeithasol wrth iddynt ryngweithio â nhw.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd a diet iach. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol i'w cynorthwyo i gadw'n iach a heini, gan gynnwys canŵio, garddio a cherdded. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau iach amser cinio a thrwy gydol y diwrnod ysgol. Mae hyn yn eu helpu i gyflawni a chynnal pwysau iach.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau perthnasol yn yr ysgol ac yn y gymuned, er enghraifft rhedeg siop fwyd symudol yr ysgol, y ‘tryc bwyd’ (‘tuck truck’), a chynnal boreau coffi ar gyfer elusen ganser ac ar gyfer rhieni.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu agweddau mwy cadarnhaol at ddysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol oherwydd y cymorth cydlynus a gânt. Maent yn mwynhau dod i’r ysgol er gwaethaf y profiadau negyddol o ddysgu y maent wedi’u cael yn y gorffennol. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer gwersi ar ddechrau’r diwrnod. Maent yn canolbwyntio’n dda ar dasgau ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac arweiniad gan staff. Mae’r mwyafrif ohonynt yn deall arferion ystafell ddosbarth yn dda ac yn symud o gwmpas yr ysgol yn hyderus i nôl eu hoffer a thacluso ar ôl gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion sy’n llai goddefgar o’r ystafell ddosbarth yn cymryd rhan yn gyson dda mewn gwersi ac maent yn colli cyfleoedd i atgyfnerthu neu ymestyn eu dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu hannibyniaeth yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn gwella medrau gofal personol pwysig ac yn mynd yn llai dibynnol ar staff i’w cynorthwyo mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl. Mae i hyn fanteision sylweddol i’w lles a’u hurddas personol ac mae’n eu paratoi’n dda ar gyfer bywyd mwy annibynnol pan fyddant yn gadael yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn.

Mae’r ysgol yn darparu amrywiaeth addas o brofiadau dysgu sy’n cael eu teilwra’n dda ar y cyfan i fodloni anghenion a galluoedd disgyblion. I ddisgyblion iau, mae’r cwricwlwm yn canolbwyntio’n briodol ar gyflwyno medrau llythrennedd a rhifedd ar gyfer bron pob un o’r disgyblion. I ddisgyblion hŷn, rhoddir pwyslais gwerthfawr ar y ddarpariaeth ar gyfer medrau bywyd sy’n paratoi disgyblion yn dda ar gyfer bywyd mwy annibynnol pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mae’r ysgol yn ehangu darpariaeth y cwricwlwm sydd ar gael i ddisgyblion unigol ar sail eu parodrwydd i gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfle i gymryd rhan mewn ystod fuddiol o weithgareddau yn y gymuned leol, fel marchogaeth, nofio mewn pwll cyhoeddus, a siopa mewn archfarchnadoedd a chanolfannau garddio. Mae’r gweithgareddau hyn yn cefnogi datblygiad ymgysylltiad cymdeithasol disgyblion a’u dealltwriaeth o ffordd iach o fyw.

Mae’r tîm addysg yn gweithio’n gynhyrchiol iawn gyda staff preswyl ac amlddisgyblaethol i gynllunio ar gyfer datblygu medrau ehangach disgyblion. Mae hyn yn galluogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf yn eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol o’u mannau cychwyn. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu disgyblion yn benodol yn gryfder ar draws yr ysgol.

Pan fo’n berthnasol, caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu medrau defnyddiol yn gysylltiedig â gwaith sy’n cefnogi datblygiad eu hyder a’u hunan-barch. Er enghraifft, mae tua hanner y disgyblion yn elwa ar leoliadau profiad gwaith allanol, gan gynnwys lleoliadau mewn gwarchodfa natur a siop anifeiliaid anwes leol. Yn yr

un modd, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu synnwyr disgyblion o gyfrifoldeb trwy brofiadau mewnol yn gysylltiedig â gwaith, fel siop fwyd symudol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth gref i ddisgyblion ddysgu a chymhwyso medrau llythrennedd a TGCh yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn raddol mewn cyd-destunau bywyd go iawn wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn dechrau cynllunio profiadau dysgu sy'n cynnwys dulliau mwy arloesol o fodloni anghenion disgyblion sy'n llai goddefgar o amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae staff wedi datblygu gardd ysgol yn ddiweddar i ddatblygu amgylchedd dysgu allanol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn ac mae'r amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion ddilyn trywydd eu dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn rhy gyfyngedig.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae gan athrawon a staff cymorth ddealltwriaeth gref o anghenion cymhleth eu disgyblion. Mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i hyrwyddo amgylchedd dysgu cadarnhaol a chynhwysol. Maent yn meithrin perthnasoedd gweithio gofalgar a pharchus gyda disgyblion ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol ac yn sensitif. Dros gyfnod, mae'r dull cydlynus hwn yn galluogi bron pob un o'r disgyblion i wella eu dealltwriaeth o sut i reoli eu hymddygiad.

Mae athrawon yn llunio cynlluniau a chynlluniau gwaith manwl, sy'n rhoi ystyriaeth agos i anghenion a datblygiad medrau disgyblion. Yn gyffredinol, mae staff yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion disgyblion i gynllunio gweithgareddau a thasgau sy'n gweddu'n briodol i'w diddordebau. Mae amcanion gwersi yn nodi targedau disgyblion unigol ac mae athrawon yn strwythuro gweithgareddau dysgu'n briodol o amgylch y rhain. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw targedau disgyblion yn ddigon heriol na phwrpasol.

Mae athrawon yn defnyddio holi'n fedrus i sicrhau bod hyn wedi'i gysylltu'n ofalus â lefelau dealltwriaeth disgyblion ac mae'n magu eu hyder yn eu hymatebion eu hunain. Mae pob un o'r staff yn rhoi adborth llafar cyson a chalonogol i ddisgyblion sy'n eu helpu i gynnal eu ffocws a gweithio'n ddiwyd. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw diben asesiadau athrawon yn glir ac nid yw'n helpu nodi'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud nesaf i gyflawni eu nodau dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gan yr ysgol drefniadau hynod effeithiol i hyrwyddo cynnydd a lles disgyblion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r agwedd hon ar ddarpariaeth yr ysgol yn nodwedd ragorol. Mae'n sicrhau bod disgyblion yn llwyddo i gwblhau eu lleoliadau yn yr ysgol, er bod gan lawer ohonynt hanes o fethiannau o ran lleoliadau yn eu hysgolion blaenorol.

Mae staff yn asesu pob un o'r disgyblion dros gyfnod estynedig pan fyddant yn ymuno â'r ysgol i ddechrau. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth fanwl a chynhwysfawr i'r ysgol sy'n cynnwys lefelau cyrhaeddiad presennol, yn ogystal ag asesiadau gwerthfawr gan dîm amlddisgyblaethol yr ysgol ar anghenion ehangach disgyblion. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi staff i osod nodau rhaglen perthnasol ar gyfer

disgyblion ac yn darparu strategaethau gwerthfawr ar eu cyfer i gefnogi anghenion cyfathrebu, ymddygiadol a chorfforol disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr i fonitro presenoldeb ac ymddygiad disgyblion ac olrhain eu cynnydd yn erbyn eu targedau personol. O ganlyniad, gall arweinwyr nodi'n gyflym pryd mae angen ymyriadau a rhoi strategaethau a dulliau newydd ar waith. Pan fydd angen, mae hyn yn cynnwys mewnbwn buddiol gan therapydd lleferydd ac iaith yr ysgol, therapydd galwedigaethol a chynorthwyydd ymddygiad.

Mae'r dull cydlynus o weithio amlddisgyblaethol yn rheswm allweddol am y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud wrth leihau achosion o ymddygiad heriol a gwella eu hymgysylltiad cymdeithasol dros gyfnod. Mae cyfarfodydd rheolaidd y timau clinigol, addysg a phreswyl sy'n cael eu cadeirio gan y pennaeth addysg yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff adolygu cynnydd disgyblion, rhannu gwybodaeth bwysig a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i gynlluniau cymorth ymddygiad disgyblion ac amserlenni. Mae adroddiadau manwl yn nodi camau gweithredu perthnasol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, mae staff ar draws yr ysgol yn rhannu dull hynod gyson ac effeithiol o fodloni anghenion cymhleth disgyblion.

Mae aelodau o'r tîm clinigol a phreswyl yn gweithio'n agos gyda staff addysg i lywio'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd disgyblion. Pan fo'n briodol, defnyddir y wybodaeth hon i lywio targedau ar gynlluniau addysg unigol disgyblion. Mae hyn yn helpu rhoi cyfeiriad i gynllunio profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion penodol disgyblion, er enghraifft pan fydd gan ddisgyblion ofynion penodol sy'n ymwneud â'u gofal personol.

Mae staff yn rhoi ystyriaeth agos i ffafriaethau disgyblion wrth gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion unigol. Maent yn sylwi ar atebion disgyblion yn ofalus i bennu eu hoffterau a'u dewisiadau ac yn cynnwys y rhain ble bynnag y bo modd i annog eu hymgysylltiad a'u cyfranogiad. Er enghraifft, mae'r ysgol yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd addas i gymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd sy'n apelio at eu diddordebau a'u galluoedd. Mae'r dull hynod bersonoledig hwn yn effeithiol iawn o ran sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu dealltwriaeth o iechyd a lles gan ei fod yn berthnasol i'w hanghenion eu hunain.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth addas i ddisgyblion ymgymryd â swyddi cyfrifol sy'n helpu hyrwyddo datblygiad eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Er enghraifft, mae disgyblion yn paratoi cinio ochr yn ochr â chogydd yr ysgol ac yn rhoi'r prydau hyn i'w cyfoedion. Caiff pob un o'r disgyblion gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan yn y gymuned fel rhan o'u hamserlen i ymarfer eu medrau yn y gymuned trwy brynu cynhwysion i goginio prydau o'u dewis eu hunain.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno cyfres o ddiwrnodau 'tasgau cyfoethog' er mwyn i ddisgyblion gael cyfleoedd i ddefnyddio eu dawn greadigol tra'n cydweithio â'i gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau gwerth chweil fel datblygu menter gwneud sebon a gwella agweddau ar amgylchedd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau hynod effeithiol i gyfathrebu â rhieni a gofalwyr am gynnydd eu plant fesul diwrnod, yn unol â'u ffafriaethau unigol. Mae'r rhain yn cynnwys galwadau ffôn, negeseuon e-bost rheolaidd a thudalen cyfryngau

cymdeithasol yr ysgol. Mae adroddiadau blynyddol defnyddiol yn darparu gwybodaeth fanwl am gynnydd disgyblion ar gyfer rhieni, gofalwyr ac awdurdodau lleol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r ysgol yn un o blith grŵp o bedair ysgol y mae'r perchennog yn berchen arnynt. Mae hyn yn galluogi'r pennaeth addysg i elwa ar gymorth cryf a ddarperir gan uwch arweinwyr yn y sefydliad ehangach, yn enwedig gan y cyfarwyddwr addysg. Mae gan arweinwyr ar draws y cwmni weledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar nod yr ysgol i ddarparu amgylchedd ysgol diogel a saff sy'n annog unigoliaeth, hyder a hunan-barch.

Mae'r pennaeth addysg yn darparu arweinyddiaeth egnïol a brwdfrydig. Mae hi'n hynod weladwy o gwmpas yr ysgol ac yn gweithredu fel model rôl cadarnhaol ar gyfer disgyblion a staff. Ar y cyd â'r cyfarwyddwr addysg, mae'n cyfleu gweledigaeth yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae pob un o'r staff yn gwybod ac yn deall eu cyfrifoldebau'n dda. Mae cyfarfodydd rheolaidd aelodau'r tîm addysg, preswyl ac amlddisgyblaethol yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol sy'n canolbwyntio'n glir ar les a chynnydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i sicrhau ansawdd ei gwaith yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd bob tymor i staff adolygu cynnydd a chyflawniadau disgyblion, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith. Mae gan yr ysgol fecanweithiau cadarn i ddefnyddio safbwyntiau disgyblion, rhieni a gofalwyr, a staff. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu ystod eang iawn o dystiolaeth uniongyrchol i arweinwyr adolygu gwaith yr ysgol.

Mae cyfarfodydd dyddiol ac wythnosol y tîm addysg yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i staff roi adborth i arweinwyr a chyfrannu at weithgareddau hunanarfarnu'r ysgol. O ganlyniad, mae gan y pennaeth a'r cyfarwyddwr addysg ddealltwriaeth gref o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Yn gyffredinol, mae meysydd i'w gwella yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau a nodwyd yng nghynlluniau gwella'r ysgol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu hariannu'n briodol. Mae'r ymrwymiad hwn yn golygu bod gan yr ysgol hanes cryf o ran mynd i'r afael ag argymhellion Estyn o ymweliadau monitro blaenorol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau strategol buddiol ag ysgolion eraill yn y grŵp. Mae hyn wedi cryfhau trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd ac mae'n galluogi arweinwyr i rannu arfer effeithiol mewn amryw o feysydd. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi adolygu ei dull o graffu ar waith a'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn ddiweddar. Mae wedi creu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion o'r ysgol weithio gyda disgyblion mewn ysgol arall ac elwa ar ei chyfleusterau, er enghraifft wrth chwilota mewn pyllau neu yrru tractor.

Mae'r ysgol yn buddsoddi'n briodol mewn hyfforddiant proffesiynol sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion meddygol arbenigol ac anghenion ehangach ei disgyblion. Mae gan arweinwyr ddull strategol o ddatblygu staff yn y sefydliad i fodloni anghenion disgyblion a sicrhau parhad cymorth iddynt. Mae prosesau ymsefydlu a hyfforddiant

yn sicrhau bod pob un o’r staff yn cael hyfforddiant priodol a chyfoes ar draws ystod gynhwysfawr o feysydd perthnasol.  Mae athrawon wedi datblygu perthnasoedd cynhyrchiol gyda staff o goleg arbenigol lleol i gynnal adolygiadau cymheiriaid o wersi ei gilydd.  Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw cyfleoedd cynlluniedig i staff ymestyn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o faterion sy’n ymwneud ag addysgu a dysgu wedi’u datblygu’n ddigonol.

Mae’r ysgol yn bodloni holl Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2018